13 Mai 2013

Mr Graham Rees
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

ANFONWYD DRWY E-BOST

Annwyl Graham

Diolch am gyfarfod buddiol iawn y bore yma. Mae'n amlwg bod nifer o feysydd lle gallwn sicrhau manteision i bawb ohonom drwy berthynas waith agosach. Byddwn yn anfon manylion tîm arweinyddiaeth CNC atoch i helpu i greu'r cysylltiadau agosach hyn rhwng ein timau.

Fel y trafodwyd, carwn rannu ein syniadau cyfredol ynglŷn â sefydlu fframwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch pysgodfeydd mewndirol Cymru. Rhaid i unrhyw fframwaith fod yn hyblyg er mwyn cynnwys a chysylltu â threfniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a ddatblygir yn y dyfodol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddem yn croesawu'r cyfle i adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'ch tîm gan y bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr i lywio ein syniadau ar ddulliau o ymgysylltu yn y dyfodol.

- Credwn y dylai'r fframwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid: Hyrwyddo dull o reoli adnoddau naturiol ar lefel yr ecosystem:

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem er mwyn cyflawni canlyniadau sy'n sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau Cymru. I gyflawni hyn, bydd angen i ni ymgysylltu â llawer mwy o randdeilliaid amrywiol ar raddfa briodol, o lefel dalgylch i grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n canolbwyntio ar un mater er mwyn mynd i'r afael â materion safle-benodol. Bydd ystyried afonydd sy'n croesi ffiniau yn hanfodol er mwyn diffinio'r fframwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- Hwyluso ymatebion i amrywiaeth eang o faterion cysylltiedig:

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru angen fframwaith ymgysylltu i dderbyn cyngor a gwybodaeth er mwyn llywio ein dull o weithredu a'n camau gweithredu lle byddwn yn arwain ar faterion. Bydd angen i hyn fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i faterion wrth iddynt godi.

Ffôn/Tel 02920 466047
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk
Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Cardiff CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'n dulliau o sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol drwy raglen o sgyrsiau 'agenda ar gyfer newid' gyda grwpiau sy'n cynrychioli pob math o ddiddordebau amrywiol sy'n effeithio ar bysgodfeydd mewndirol neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt.

Mae angen i ni gynnal y sgyrsiau â'n partneriaid a'n cyd-gyflenwyr, ar y meysydd ar gyfer newid a sut yr awn ati wedyn i symud ymlaen gyda'r camau gweithredu i sicrhau bod y newid yn digwydd. Bydd hyn yn llunio sut yr awn ati i ymgysylltu yn y dyfodol, ac â phwy.

Wrth i ni gael y sgyrsiau a fydd yn llywio'n dulliau o weithredu yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'n Grwpiau Pysgodfeydd Lleol a'n cysylltiadau cyfredol.
.

- Darparu cyngor eglur a chyson:

Mae angen i ni fod yn eglur ynglŷn â rôl unrhyw grŵp cenedlaethol a sefydlir gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â physgodfeydd mewndirol. Rhaid i ni osgoi dyblygu rolau neu wariant, a chyngor sy'n gwrthdaro neu sy'n ddryslyd.

Mae angen i ni ddiffinio'n eglur beth yw diben grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. Dylai unrhyw grŵp allu rhoi cyngor gwirioneddol, yn hytrach na gweithredu fel cyrff cynrychiadol yn unig i lobïo Llywodraeth Cymru a derbyn gwybodaeth ganddi.

- Sicrhau cyfathrebu effeithiol:

Mae angen llif o wybodaeth ddwy ffordd. Rhaid i grwpiau Cenedlaethol ac Ardal gael cyngor a mewnbwn gan grwpiau lleol. Dylai aelodau unrhyw grwpiau adlewyrchu holl safbwyntiau'r sefydliadau a'r sectorau a gynrychiolant. Mae angen i ni ddeall pa ffyrdd yw'r mwyaf effeithiol o hwyluso cyfathrebu dwy ffordd o'r fath i'w gwneud hi'n haws i bobl a gwneud iddynt fod eisiau ymgysylltu. Mae'n bosibl y gellid gwneud hyn yn well drwy gynyddu'r defnydd o gyfryngau electronig sy'n darparu gwybodaeth a chyngor amser real a hwyluso ymateb cyflym a hyblyg i faterion sy'n codi. Gallai hefyd sicrhau bod cyngor a thystiolaeth ehangach a mwy cynrychiadol ar gael.

Dylai grwpiau weithredu mewn amgylchedd o barch ac ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall, gan weithio tuag at nod cyffredin o sicrhau'r amrywiaeth ehangaf o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o bysgodfeydd cynaliadwy.

Ffôn/Tel 02920 466047
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk
Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Cardiff CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Edrychwn ymlaen at gael gweithio gyda chi dros y misoedd nesaf i ddatblygu fframwaith ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni pob un o'n canlyniadau.

Yn ddiffuant

**CERI DAVIES**
**Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio**

**Copi at: Jennifer Dack; Sarah Williams; Corrie Davies; Joanne Sherwood**

Ffôn/Tel 02920 466047
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk
Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Cardiff CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English